

## ATODIAD 8

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu [DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru), am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill Iaf 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

### 1) Manylion

#### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23

#### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae gosod cyllideb flynyddol yn ofyn statudol ar y Cyngor, yn ogystal â bod yn gam allweddol yn y drefn o gynnal stiwardiaeth ariannol dda.

### **1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

### **1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

Medi 2021, wrth baratoi Strategaeth Ariannol Tymor Canol, a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 28 Medi 2021. Gwaith manwl wedi gallu cychwyn ar 21 Rhagfyr 2021, sef dyddiad cyhoeddi setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2022 i 2023.

## **2) Gweithredu**

### **2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

Mae nifer o gamau gweithredu wedi eu cymryd pan yn paratoi'r gyllideb yma:

- Trafodaethau rhwng cyfrifwyr gwasanaeth ac uwch swyddogion yr adrannau i ystyried bidiau a chynlluniau arbed
- Holl aelodau'r Cyngor wedi cael eu gwahodd i seminarau cyllideb ar 24 – 27 Ionawr 2022
- Cydweithio agos rhwng y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a swyddogion cyllid wrth ystyried bidiau
- Aelodau'r Cabinet wedi cael cyfle i fynegi barn ar yr asesiad o'r bidiau
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael cyfle i graffu'r gyllideb ar 10 Chwefror
- Y Cabinet i ystyried y gyllideb ddrafft ar 15 Chwefror a gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn
- Y Cyngor llawn i osod y gyllideb ar gyfer 2022/23 a phennu cyfradd Treth Cyngor ar 3 Mawrth

## **2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Mae'r gyllideb a amlinellir yma yn ceisio parhau i ddarparu deilliannau priodol i holl drigolion y sir. Gan fod cynnydd yng ngrant y Llywodraeth eleni yn ddigonol i gwrdd â'r galw am wasanaethau yn ogystal â chwyddiant, mae modd sefydlu cyllideb gytbwys heb chwilio am arbedion ariannol pellach.

Mae pob cynllun arbedion sydd eisoes yn y rhaglen i'w weithredu wedi bod yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar yr adeg y cafodd ei gyflwyno. Bryd hynny, bu cydnabyddiaeth fod posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchoddedig, ond mae'r adrannau sy'n berchen ar yr arbedion wedi cynnig cynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau. Hefyd, mae'r cynlluniau arbedion unigol wedi bod yn destun asesiadau effaith priodol sy'n cefnogi'r penderfyniadau ariannol gerbron yma.

Gan nad oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu cyflwyno eleni, ni fu proses ymgynghori.

## **2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Gan nad oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu cyflwyno eleni, ni fu proses ymgynghori.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae cyllideb 2022/23 wedi ei lunio ar egwyddor "gynyddol". Hynny yw, defnyddir cyllideb 2021/22 fel cyllideb sylfaenol, gan wneud nifer o addasiadau cyn dod at gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23:

- Chwyddiant Cyflogau Staff
- Chwyddiant Arall (cyflenwyr)
- Cynnydd mewn ardollau (Awdurdod Tân ac Achub, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd)
- Addasiadau i adlewyrchu newidiadau mewn demograffi
- Bidiau ariannol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau
- Addasiadau technegol i'r gyllideb
- Cynnydd neu ostyngiad mewn costau benthyca a llog ar falansau
- Cyllideb ychwanegol wedi ei greu er mwyn ymdrin â phwysau ariannol parhaus sy'n deillio o Covid-19.
- Gwireddu arbedion sydd eisoes wedi cael eu cytuno

Mae pob un o'r bidiau ariannol a chynlluniau arbed wedi bod yn destun asesiadau effaith cydraddoldeb eu hunain.

Wrth gynllunio ein cyllidebau ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor, mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol, mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi dadansoddi effaith cynlluniau ar wasanaethau, a monitro'r effaith yn briodol.

Yn ogystal â chwrdd â phwysau chwyddiant, mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Na

### 3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
<b>Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Anabledd</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Rhyw</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Oedran</b>	Positif	Mae'r gyllideb a argymhellir yn cynnwys cynnydd arwyddocaol yng nghyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant er mwyn cryfhau'r sector gofal preswyl a nyrsio.
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Ailbennu rhywedd</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Yr iaith Gymraeg</b>	Positif	Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys sicrhau fod adnoddau wedi cael eu rhoi yn eu lle i gefnogi gwasanaethau dwyieithog llwyr. Mae nifer o fidiau am adnoddau ychwanegol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau (Atodiad 2) yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Nodir yn benodol y cais am £305,000 o arian un-tro ar gyfer Datblygu Hunaniaith (Prif Swyddog Hunaniaith, Swyddog Datblygu Digidol Hunaniaith ac Arian prosiect i gefnogi prosiectau digidol).

		<p>I ategu hyn, Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.</p> <p>Wrth lunio'r gyllideb rhoddwyd sylw penodol i Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y saith nod Llesiant. Mae hynny'n cynnwys rhoi sylw i'r chweched nod sef 'Diwylliant a'r Gymraeg'.</p>
<b>Anfantais Economaidd-Gymdeithasol</b>	Positif	Mae cyllidebau'r Cyngor, ac yn enwedig y bidiau llwyddiannus wedi eu llunio i sicrhau fod yr awdurdod yn gallu parhau i gyfeirio adnoddau i leihau gwahaniaethu ar sail anfantais economaidd-gymdeithasol

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>A yw'n cael effaith?*</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Nac ydi	Ni chredir fod unrhyw effaith a soniwyd amdano yn 3.1 yn ddigonol i arwain at gamwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Positif	Mae'r gwaith o osod y gyllideb yn seiliedig ar waith sylweddol dros nifer o flynyddoedd o sicrhau fod cyllideb yn ei le sydd adlewyrchu anghenion a gofynion pobl Gwynedd
<b>Meithrin perthnasau da</b>	Niwtral	Mae'r gwaith o osod cyllideb yn cael ei wneud o fewn ffiniau clir, ac mae'r balans o fidiau llwyddiannus ac arbedion yn ymateb i'r gwir bwysau sydd ar wasanaethau.

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.

Eleni, wrth lunio Cyllideb 2022/23, nid yw'r Cyngor wedi cael yr angen i ddarganfod cynlluniau arbedion newydd. Mae'r arbedion sydd i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn 2022/23 eisoes wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol. Dilynwyd prosesau statudol priodol cyn eu cymeradwyo ac felly nid ydynt yn destun penderfyniad eleni. Roedd y prosesau statudol yn cynnwys cwblhau asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am effaith ar yr iaith Gymraeg. Wrth drin penderfyniadau am arbedion yn adroddiad Cyllideb 2020/21, casglwyd fod **dim effaith** wedi ei ganfod ar yr iaith Gymraeg ond fod angen cadw golwg wrth weithredu.

Wrth baratoi adroddiad Cyllideb 2021/2022 rhoddwyd ystyriaeth ar effaith arfaethedig Cyllideb 2021/2022 ar y Gymraeg. Yn unol â'r arfer cwblhawyd asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae'r drefn yma yn parhau ar gyfer 2022/23.

Ymysg y ceisiadau llwyddiannus am arian y tro hwn mae ymrwymiad o £305,000 o arian un-tro ar gyfer Datblygu Hunaniaith (Prif Swyddog Hunaniaith, Swyddog Datblygu Digidol Hunaniaith ac Arian prosiect i gefnogi prosiectau digidol).

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Polisi ariannol yw hwn, a credwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith bositif ar yr iaith.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Mae'r drefn o sefydlu cyllideb y Cyngor yn ganlyniad i gamau penodol sy'n ystyried cyllideb sylfaenol y flwyddyn flaenorol a'r camau sydd angen eu cymryd i wedyn i adlewyrchu addasiadau sydd angen eu hystyried i ymdrin â phwysau ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Yn ychwanegol i hynny mae sefyllfa gyllidebol holl wasanaethau'r Cyngor yn destun adolygiad manwl dair gwaith y flwyddyn, er mwyn adnabod unrhyw feysydd lle mae angen gweithredu i ymdrin â thanwariant neu gorwariant – yn enwedig os nad ydi cyllidebau yn annigonol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau. Mae natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y pwysau ar wasanaethau yn lleihau anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol gan fod y mesurau i ymdrin â phwysau ar wasanaethau yn cymryd hyn i ystyriaeth.

Nid oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu cynnig eleni, ac mae'r rhai sydd yn bodoli yn y rhaglen ers blynyddoedd blaenorol wedi dod yn destun asesiad fanwl i sicrhau fod anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei leihau.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Mae'r ceisiadau am wariant ychwanegol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau ("bidiau") wedi bod yn destun asesiadau manwl gan nifer o swyddogion ac aelodau a felly rydym yn hyderus fod pob cam sy'n ymarferol bosib i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol wrth lunio'r gyllideb wedi cael eu cymryd.



#### 4) Dadansoddi'r canlyniadau

##### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Bydd effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u ariannu i'r lefel galw ychwanegol.

##### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae effaith wedi ei adnabod, ond ni chredir y bydd yn sylweddol, gan nad oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu hargymell.

##### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

##### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd yr adrannau yn gweithio i sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng cynnydd yn y Dreth Cyngor a'r angen i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Bydd rhaid cael penderfyniad y Cyngor llawn yn flynyddol ar osod y gyllideb a chyfradd y Dreth.

Bydd yr arbedion yn cael eu herio yn y Cyfarfodydd Herio Perfformiad dair gwaith y flwyddyn ac yn cael eu hadrodd i'r Cabinet fel rhan o adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet unigol. Hefyd, bydd adroddiad Trosolwg Arbedion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio tair gwaith y flwyddyn.